Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo
Yn Neuadd y Sir am 7.30 p.m. ar ddydd Mawrth 21ain Medi 2004

Presennol: Maer Mrs Ros Bellamy — Dirprwy Faer Colin Jenkins
Cyng David Jones — Cyng Ms Pam Steane Price
Cyng Mrs Fran Murphy
Cyng Ieuan Gwyn — Cyng Roy Davies
Cyng Paul Faulkner — Swyddog Technegol Huw Griffiths
Cynghorydd Sir Ieuan Jones a Mr Hugh Town fel arsylwyr/ ymgynghorwyr.

Ymddiheuriadau: Cyng Mrs Charlotte Leadbeater

6218 **Aelodau Newydd** Croesawodd y Maer y Cynghorwyr newydd Paul Faulkner a Roy Davies, a June Stait y clerc dros dro newydd. Llofnododd y Cynghorwyr y datganiad o dderbyniad.

6219 **Cofnodion Blaenorol** Llofnodwyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn 20/7/04 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng D Jones, Eiliwyd gan y Dirprwy Faer.

6220 **Materion yn Codi:**

6175 Cadarnhaodd y banc y gellir talu 10 siec y mis heb orfod talu costau banc.

6176 Mae angen cyflenwad d r a goleuadau ar gyfer y caban ar frys. Cynigiwyd gan y Cyng D Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng I Gwyn y dylid prynu golau sy'n sensitif i symudiadau a'i osod er mwyn sicrhau diogelwch.
Swyddog Technegol i brynu a gosod y golau diogelwch.

6178 Cadarnhaodd y Swyddog Technegol y byddai glanhau arwydd y maes parcio yn ei wella ac y byddai'n trefnu hyn.
Swyddog Technegol i drefnu glanhau'r arwydd.

6186 Llywodraethwr Teilo Sant: Cytunwyd y byddai'r Cyng C Jenkins yn aros am 4 blynedd arall. Cynigiwyd gan y Maer, eiliwyd gan y Cyng D Faulkener.

6189 Tân gwyllt: Angen cael dyfynbris yswiriant. Llythyr swyddogol i'w anfon o'r Cyngor Tref i'r Pwyllgor yn gofyn a fyddai'n bosib cynnal y digwyddiad ar y cae rygbi. Mae angen 7 gwirfoddolwr i gymryd arian wrth y fynedfa o 5.30 p.m. dydd Gwener 5ed Tachwedd yng Nghae William.
Clerc i gydweithio gyda Geraint Price, a threfnu yswiriant.
G yl y Goleuadau: Dirprwy Faer i weld â oes unrhyw gynnydd gyda'r cais hwn am grant.
Dirprwy Faer i weld â oes unrhyw gynnydd.

6221 Llofnodwyd **Cofnodion Cyfarfod Cynllunio 21/7/04** fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng D Jones, eiliwyd gan y Dirprwy Faer.

6222 Llofnodwyd **Cofnodion Cyfarfod Cyllid 8/9/04** fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng I Gwyn, eiliwyd gan y Dirprwy Faer.

6223 **Materion yn Codi**

6198 Trafodir yr adroddiad archwilio ar ddiwedd y cyfarfod.

6199 O ganlyniad i nodiadau a dynnwyd i sylw'r Cyngor gan yr Archwiliwr Mewnol, cynigiodd y Maer fod taliadau a noder yng nghofnod 6199 i'w cymeradwyo'n ôl-weithredol ynghyd â graddfa gyflog newydd a ddyddiwyd yn ôl i Ebrill 1af. Eiliwyd gan y Cyng F Murphy.

6200 Mae'r ddogfen drosglwyddo wedi'i derbyn o ran prynu'r alotment ar Heol Cilgant ynghyd ag anfonebau sy'n dod i gyfanswm o £3340.50. Cynigiodd y Cyng D Jones y dylid talu'r anfonebau hyn, eiliwyd gan y Cyng I Gwyn, a phleidleisiodd y Cynghorwyr i gyd o blaid.
Mae un dyfynbris wedi'i dderbyn ar gyfer gwneud gwaith o glirio'r tyfiant.

Clerc i ddod o hyd i'r dyfynbris.

6201 Cyng R Faulkener i fynychu Diwrnod Hyfforddiant Un Llais i Gymru.

Clerc i gadw lle arall.

Cytunodd Huw Griffiths y Swyddog Technegol i sefyll yn ei swydd tan ddiwedd Hydref.

6224 Llofnodwyd **Cofnodion Cyfarfod Cynllunio 8/9/04** fel cofnod cywir gan ychwanegu bod cofnod 6205 yn cyfeirio at gais E07525. Dau gamgymeriad teipio: dylai cofnod 6206 ddarllen Llygad Yr Haul a dylai cofnod 6208 ddarllen Llwybrau Troed a Llwybrau Marchogaeth. Cynigiwyd gan y Dirprwy Faer, eiliwyd gan y Cyng D Jones.

6225 **Materion yn Codi:**

6208 Hysbysodd y Swyddog Technegol y dylid anfon llythyr o'r Cyngor Tref at Kevin Thomas CSC yn ailgyflwyno'r rhaglen a anfonwyd atynt ar gyfer gwneud gwelliannau i'r Llwybrau Troed a Llwybrau Marchogaeth.

Clerc i ailgyflwyno'r rhaglen flaenorol.

6209 Cynghorydd Sir I Jones i weld â oes unrhyw gynnydd parthed y grant Goleuadau Nadolig.

Cynghorydd Sir I Jones i weld â oes unrhyw gynnydd parthed y grant goleuadau Nadolig

6210 Arafu traffig – clerc i arolygu'r cynnydd

Clerc i weld â oes unrhyw gynnydd parthed arafu traffig

6226 Llofnodwyd **Cofnodion o gyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn ar 15/9/04** fel cofnod cywir, gyda newidiadau parthed y rhai oedd yn

bresennol, a sylw yn esbonio pam fod clerc dros dro wedi'i gyflogi.
Cynigiwyd gan …… eiliwyd gan ……..

6227 **Materion yn Codi:**

6213 Cyfarfodydd Cynllunio a Chyllid: Wedi rhywfaint o drafodaeth, cynigiodd y Cyng D Jones y dylid dod â'r eitem hon yn ôl i gyfarfod nesaf o'r cyngor llawn i'w drafod fel eitem ar yr agenda.

6228 **Adroddiad y Maer:** Rhoddodd y Maer adroddiad o'i weithgareddau a wnaed ar ran y Cyngor dros y mis diwethaf.

6229 **Adroddiadau Eraill:**

1. Wnaeth y Cyng I Gwyn fynychu cyfarfod gyda'r Cynghorydd Sir I Jones mewn perthynas â lleoli'r Ganolfan Croeso rhywle arall yn y dre. Gwahoddwyd y Cyngor Tre i argymell busnes a fyddai'n barod i ddarparu llety ar gyfer y gwasanaeth hwn. Cynigiwyd gan y Cyng D Jones ac eiliwyd gan y Dirprwy Faer bod y Cyngor yn gwrthwynebu hyn yn gryf ac y dylid anfon llythyr yn esbonio'r farn hon.

Clerc i ysgrifennu yn gwrthwynebu'n gryf.

2. Mynychodd y Cyng C Jones AGM Menter Bro Dinefwr ac roedd wedi derbyn copïau o'r cofnodion a chyfrifon. Bydd Menter Bro Dinefwr yn ymgymryd â gwaith Antur Cwm Taf Tywi a'r rhaglen Apple.

Y clerc i ofyn am gopi o'r cyfansoddiad.

6230 **Cynllun Iaith Gymraeg:** Mae pob Cynghorydd wedi derbyn copi o'r cynllun arfaethedig. Y prif bwyntiau oedd:
Bydd y Cyngor yn cynnal ei fusnes trwy gyfrwng y Saesneg; mae'r Clerc yn siarad Saesneg. Bydd yr agenda a'r cofnodion, ac unrhyw hysbysiadau swyddogol yn Gymraeg a Saesneg. Cyng R Davies i fonitro bod y Cyngor yn cadw at y cynllun, fe fydd yna adroddiad ym mis Mawrth. Cynigiwyd gan y Cyng D Jones ac eiliwyd gan y Cyng R Davies ac roedd pawb o blaid mabwysiadu'r cynllun. Diolchodd y Cyng D Jones i'r Maer am ei gwaith yn llunio'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Clerc i wneud yn si r bod llythyr cymeradwyo'r Iaith Gymraeg yn cael ei roi ar yr hysbysfwrdd.
Cyng R Davies i fonitro bod y Cyngor yn cadw at y cynllun

6231 **Un Llais i Gymru:** Nodwyd bod Cofnodion y 6ed Medi wedi'u derbyn.

6232 **Strategaeth Ystâdau Gofal Integredig**: gwahoddiad i enwebu rhywun i gymryd rhan yn y strategaeth ystâdau newydd hwn wedi'i

dderbyn a'i nodi.

6233 **Bwriad BT i waredu Blychau Ffôn**: Nodwyd ei bod yn fwriad gan BT i waredu 127 o'r 419 o ffonau talu sydd yn Sir Gaerfyrddin.

6234 **Plannu Blodau** Mae aelodau o'r gymuned wedi ysgrifennu yn mynegi eu bwriad i osod blwch er mwyn plannu llwyni a blodau ger Wal yr Eglwys. Bydd y Cyngor yn prynu ac yn cyflenwi compost ar gyfer y blwch. Cynigiwyd gan y Cyng Ms P Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng D Jones.

Cyng Ms P Steane Price i brynu'r compost, ac i dderbyn cymorth gan Gynghorwyr eraill i lanw'r blwch.

6235 **Pwyllgor Rhanbarthol y De Orllewin**: Noder y cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 22 Hydref am 9.30 yn Neuadd Goffa Pontyberem.

6236 **Trwyddedau:** Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nh 'r Drenewydd, Dinefwr rhybudd o'u bwriad i wneud cais am drwydded yr ynadon ar y 4ydd Hydref.

6237 Gwahoddir enwebiadau ar gyfer **Personoliaeth Chwaraeon 2004.** Nodwyd fod y Cynghorydd Sir I Jones wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon ymlaen i ysgol Tre-gib yn gofyn am eu henwebiad.

O dan Rheolau Sefydlog ……. Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'n trafod materion cyfrinachol.

Gohiriwyd Rheol Sefydlog Rhif …….. er mwyn caniatáu i'r cyfarfod barhau.

6238 **Adeilad Neuadd y Sir**: Trafododd y Cynghorwyr yr opsiynau sy'n agored iddynt o ran angen Archaeoleg Cambria am ragor o le swyddfa. Roedd pawb oedd yn bresennol yn cytuno y dylid cadw'r adeilad. Cyng D Jones i chwilio i'r posibiliadau o'r Cyngor yn benthyg £100,000 er mwyn adeiladu llawr mewnol ychwanegol, ac i wneud hyn trwy gysylltu gydag Archaeoleg Cambria o ran eu hanghenion hwy. Y Swyddog Technegol i amcangyfrif y costau rhedeg a chynnal a chadw dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cynorthwyo i benderfynu ar rent sy'n deg ar gyfer yr adeilad.

Cyng D Jones i chwilio i'r posibiliadau o gael benthyciad ac i gysylltu gydag Archaeoleg Cambria mewn perthynas â'u hanghenion; Swyddog Technegol i baratoi cyllideb a ffigyrau o ran costau rhedeg a chynnal a chadw.

6239 **Adroddiad Archwilio.** Cafwyd arolwg o sylwadau'r Archwilwyr ar y diffygion blaenorol gan Hugh Towns. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio i'w drafod ym mis Hydref. Cymeradwywyd adroddiad yr

Archwiliwr yn swyddogol a chwblhawyd a llofnodwyd datganiad y Cyngor. Bydd Hugh Towns yn cyflwyno ei anfoneb am ei wasanaethau fel yr Archwiliwr Mewnol cyn gynted â phosib.

Hugh Towns i gyflwyno ei gyfrif ynghyd â chynllun gweithredu i'r Cyngor.